Atodiad 2

Gweithgaredd Rheoledig

Bydd angen gwiriad manylach gyda Rhestr Waharddedig ar gyfer rhywun y tybir bod ei ddyletswyddau ef/ei dyletswyddau hi yn Weithgaredd a Reoleiddir naill ai ar gyfer Plant neu Oedolion neu'r ddau. Mae'r broses ymgeisio yr un fath â'r gwiriadau eraill.

Mae 'gweithgareddau a reoleiddir sy'n ymwneud â phlant' yn golygu gweithgareddau sy'n digwydd yn aml (unwaith yr wythnos neu fwy) neu'n 'ddwys' (mae'n digwydd ar bedwar diwrnod neu fwy mewn cyfnod o 30 diwrnod).

Gweithgaredd a reoleiddir, sy'n ymwneud â phlant', yn cynnwys:

Gweithgaredd a reoleiddir gyda phlant

Byddai unrhyw un sy'n cyflawni'r gweithgaredd hwn yn gymwys am y gwiriad manylach gyda'r Rhestr Wahardd Rhag Gweithio â Phlant

	Unwaith	Mwy na 3 diwrnod mewn cyfnod o 30 diwrnod	Unwaith dros nos gyda chyfle i gysylltu rhwng 2am a 6am
Darparu Gofal Iechyd	**Ie**	**Ie**	**Ie**
Darparu gofal personol	**Ie**	**Ie**	**Ie**
Addysgu, hyfforddi a rhoi cyfarwyddyd - **heb oruchwyliaeth**	**Na**	**Ie**	**Ie**
Gofalu am neu oruchwylio - **heb oruchwyliaeth**	**Na**	**Ie**	**Ie**
Rhoi cyngor neu arweiniad ar les corfforol, emosiynol neu addysgol	**Na**	**Ie**	**Ie**
Gyrru plant dan drefniant	**Na**	**Ie**	**Na**
Cymedroli Gwasanaeth ar y We	**Na**	**Ie**	**Na**
Cofrestru i fod yn warchodwr plant	**Amherthnasol**	**Amherthnasol**	**Amherthnasol**
Cofrestru i fod yn ofalwr maeth	**Amherthnasol**	**Amherthnasol**	**Amherthnasol**

Rheolwyr staff o ddydd i ddydd mewn gweithgaredd a reoleiddir

Ble – sefydliadau penodedig, y rheolau

Gweithgaredd a reoleiddir

Ble mae'r gweithgaredd yn digwydd:
Ysgolion*
Meithrinfeydd
Cartref Plant
Canolfannau Plant
Safleoedd Gofal Plant
Canolfannau cadw i blant
***gan gynnwys unedau cyfeirio disgyblion ac academïau darpariaeth amgen yn Lloegr**

Rhaid i unigolion fodloni'r holl feini prawf canlynol:

- Gweithio yno am fwy na 3 diwrnod mewn cyfnod o 30 diwrnod neu dros nos rhwng 2am a 6am; **a**
- Cael y cyfle i ddod i gysylltiad â phlant yn y sefydliad; **a**
- Gweithio yno at ddiben y sefydliad; **a**
- Nid rôl dros dro nac achlysurol mohoni na rôl wirfoddol dan oruchwyliaeth.

Nid oes rheidrwydd i wneud y gweithgareddau isod nifer penodol o weithiau lle mae gweithgareddau a reoleiddir sy'n ymwneud ag oedolion yn y cwestiwn. Os bydd unrhyw un o'r gweithgareddau a reoleiddir yn cael eu cynnal bydd angen gwneud cais am wiriad y rhestr waharddedig gydag oedolion. Mae chwe chategori yn niffiniad y gweithgareddau a reoleiddir gydag oedolion. Sef:

Gweithgaredd a reoleiddir gydag oedolion

Os cânt eu gwneud unwaith, mae'r gweithgareddau canlynol yn weithgareddau a reoleiddir gydag oedolion:		Byddai unrhyw un sy'n cyflawni unrhyw un o'r gweithgareddau hyn yn gymwys am **wiriad manylach gyda'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd o ran y Rhestr Wahardd Rhag Gweithio ag Oedolion**
Darparu Gofal Iechyd	Gan neu o dan oruchwyliaeth gweithiwr gofal iechyd proffesiynol	
Darparu gofal personol	Ymolchi a gwisgo, bwyta, yfed a defnyddio'r toiled	
Gwaith Cymdeithasol	Wedi'i ddarparu gan weithiwr gofal cymdeithasol i oedolyn sy'n gleient neu'n gleient posibl	
Cymorth gyda rhedeg cartref yr oedolyn o ddydd i ddydd o ran yr ochr ariannol	Rheoli arian parod, biliau neu siopa	
Cymorth gyda rhoi trefn ar faterion oedolyn	Atwrneiaeth, dirprwyon a benodwyd o dan Orchmynion Iechyd Meddwl	
Cludo oedolyn	Rhaid i hynny fod ar gyfer gofal iechyd, personol neu gymdeithasol oherwydd oedran, salwch neu anabledd.	

Ymhle yn y Brifysgol y mae'n debygol y bydd 'gweithgaredd a reoleiddir'?

Mae'r Adran Addysg (DfE) yn dweud bod gweithgaredd a reoleiddir yn debygol o ddigwydd mewn perthynas ag AU o dan yr amgylchiadau canlynol:

- bydd rhai myfyrwyr ar leoliadau mewn gweithleoedd a drefnir gan sefydliadau addysg uwch (SAU) yn cynnal gweithgareddau a reoleiddir
- Mae'n bosib y bydd staff neu fyfyrwyr SAU yn dod i gysylltiad â phlant wrth wneud gwaith allgymorth cyflogedig neu wirfoddol gyda'r ysgolion
- Mae'n bosib y bydd staff neu fyfyrwyr SAU yn dod i gysylltiad â grwpiau sy'n agored i niwed trwy eu gwaith academaidd neu'u hymchwil.
- Mae'n bosib y bydd rhai o staff SAU sy'n gweithio mewn canolfannau / amgylcheddau iechyd neu unedau cymorth dysgu yn gweithio gydag oedolion sy'n agored i niwed

Ni fydd y staff sy'n gweithio ym mhreswylfeydd y myfyrwyr yn cael eu cynnwys mewn gweithgareddau a reoleiddir os nad yw gofal neu oruchwyliaeth dros fyfyrwyr yn rhan o'u swyddi.